## 1.0 Cais am Adolygiadau – Rôl SCHTh

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throseddu. Maent yn gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona o fewn eu hardaloedd heddlu penodol. O'r 1af o Chwefror 2020, maent ynghlwm â gweithredu deddfwriaeth cwynion ac ymddygiad newydd sy'n codi o ddiwygiadau uniondeb yr heddlu 2019. Elfen allweddol o'r diwygiadau hyn yw cyflawni adolygiadau annibynnol o gwynion yr heddlu, lle mae'r Comisiynydd wedi ei asesu fel y corff adolygu perthnasol ac mae'r achwynydd yn ffurfiol yn gwneud cais am adolygiad mewn perthynas â'r modd i'r Heddlu ymdrin â'u cwyn. Y mae hwn yn ffurfio rhan o flaenoriaethau'r Comisiynydd h.y. cadw ein cymunedau'n ddiogel, diogelu pobl agored i niwed a chysylltu gyda chymunedau.

## 2.0 Cais am Adolygiadau – Ystadegau (01/02/20 – 20/10/20)

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y Ceisiadau am Adolygiadau a Dderbyniwyd: | 26 |
| Cyfanswm y Ceisiadau am Adolygiadau a oedd yn Ddilys: | 23* |
| Cyfanswm yr ymatebwyd iddynt o fewn 28 diwrnod: | 19** |

* Cafodd 2 Adolygiad eu hailgyfeirio at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ac yn dilyn ymgynghoriad gyda'r achwynydd, roedd 1 Adolygiad yn gais am Hawl Dioddefydd i Adolygiad.

** Cafodd 2 Adolygiad eu hoedi o ganlyniad i swm yr ohebiaeth ac mae 2 Adolygiad yn parhau ar hyn o bryd.

<u>Mathau o Gwynion</u>

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau: | 1 |
| Datgelu Gwybodaeth: | 1 |
| Safon gyffredinol y gwasanaeth: | 2 |
| Modd yr ymdriniwyd â, neu ddifrod a achoswyd i eiddo/adeilad: | 3 |
| Diffyg tegwch a didueddrwydd: | 1 |
| Gweithredu'r Heddlu yn dilyn cysylltiad: | 10 |
| Chwiliadau mewn adeiladau ac atafaelu eiddo: | 1 |
| Agwedd amhroffesiynol a diffyg parch: | 2 |

<u>Canlyniadau a Gofnodwyd</u>

| | |
|---|---|
| Heb eu Cadarnhau: | 15 |
| Wedi eu Cadarnhau'n Rhannol: | 2 |
| Wedi eu Cadarnhau: | 4 |

**Cyfanswm yr Adolygiadau'n arwain at Argymhellion/Gwersi a Ddysgwyd: 9**

Amser ymateb cyfartalog Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu wrth ymateb i argymhellion/gwersi a ddysgwyd ar hyn o bryd yw 16.12 diwrnod. Mae SCHTh wedi bod yn fodlon gyda'r ymatebion a dderbyniwyd i'r argymhellion/gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn.

## 3.0 Cais am Adolygiadau – Rôl Sancus

Gellir gweld manylion llawn sy'n rhoi amlinelliad o'r cefndir a'r broses caffael mewn perthynas â Sancus ar wefan SCHTh: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/9385/c-users-65038-desktop-dll174-sancus-solutions-decision-log-002.pdf.

Mae Sancus wedi ystyried cyfanswm o 21 adolygiad (hyd yn hyn) ar gyfer SCHTh ers y 1af o Chwefror 2020. O'r rhai hynny, cwestiynodd SCHTh 5 ymateb gan Sancus, arweiniodd 4 o'r rheiny at gytundeb rhwng SCHTh a Sancus ac arweiniodd 1 at SCHTh yn mynd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan Sancus. Ar gyfartaledd, mae Sancus yn cymryd 9.67 diwrnod i adolygu cwyn.